



Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Adolygiad dilynol

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Blwyddyn archwilio: 2015

Cyhoeddwyd: Rhagfyr 2015

Cyfeirnod y ddogfen: 568A2015

Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Philip Jones a Charlotte Owen.

Cynnwys

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd pellach o ran mynd i'r afael ag argymhellion i wella gwasanaethau arlwygo a maeth. Mae angen gwneud mwy o waith i gryfhau agweddau ar y broses sgrinio maethol, i wella profiadau cleifion o amser bwyd, i gau ymhellach y bwch mewn incwm a chostau mewn perthynas â gwasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion ac i adolygu trefniadau cynllunio ac adrodd yn dilyn yr ad-drefnu diweddar.

Adroddiad cryno

Cefndir	4
Ein prif ganfyddiadau	5
Argymhellion	6

Adroddiad manwl

Mae trefniadau ar gyfer diwallu anghenion deietegol a maethol cleifion yn parhau i wella, ond mae'r broses sgrinio a'r ddarpariaeth diodydd a gwybodaeth i gleifion yn anghyson	10
Mae profiadau cleifion o amser bwyd yn parhau i wella	15
Mae cost gwasanaethau arlwygo i gleifion wedi codi ac, er bod gwasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion yn dal i wneud colled, mae'r bwch rhwng incwm a chost yn cau	19
Mae'r broses o adrodd ar faterion arlwygo a maeth a chael adborth gan gleifion wedi gwella, ond mae rhai trefniadau goruchwyllo yn gymhleth o hyd	25

Atodiadau

Dull archwilio	29
Argymhellion lleol a chenedlaethol	31

Adroddiad cryno

Cefndir

1. Mae gwasanaethau arlwyio mewn ysbytai yn rhan hanfodol o ofal cleifion. Mae prydau bwyd maethlon, o safon, yn chwarae rhan hanfodol yn y broses o adsefydlu a gwella cleifion. Mae gwasanaethau arlwyio effeithiol yn dibynnu ar gynllunio a chydgyssylltu nifer o brosesau'n gadarn gan gynnwys cynllunio bwydlenni, caffael, cynhyrchu bwyd a dosbarthu prydau bwyd i wardiau a chleifion. Mae hefyd angen cyfathrebu da ar draws yr amrywiaeth o grwpiau staff, gan gynnwys rheolwyr, staff arlwyio, deietegwyr, nyrsys, staff cymorth a phorthorion.
2. Mae angen i statws maethol cleifion gael ei asesu a'i fonitro'n briodol, ac mae angen rhoi trefniadau ar waith i helpu cleifion i fwynhau eu prydau mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer bwyta. Dylai gwasanaethau arlwyio mewn ysbytai fod yn gost-effeithiol ac yn ddigon hyblyg i gynnig dewis da o brydau maethlon a all ddarparu ar gyfer gofynion a dewisiadau deietegol penodol cleifion.
3. Yn 2010, aethom ati i gynnal archwiliadau o wasanaethau arlwyio a maeth cleifion mewn ysbytai lleol ledled Cymru, i ddilyn y gwaith a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Comisiwn Archwilio yn 2002¹. Ym mis Mawrth 2011, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad² yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith hwn. Yn ôl adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, roedd trefniadau arlwyio a gofal maeth ar gyfer cleifion wedi gwella'n gyffredinol, ac roedd boddhad cleifion yn parhau i fod yn uchel. Fodd bynnag, roedd angen gwneud mwy i sicrhau bod arfer da cydnabyddedig yn cael ei weithredu'n ehangach, yn enwedig o safbwynt sgrinio maethol a chynllunio gofal, a sicrhau bod gwastraff bwyd yn cael ei leihau.
4. Yn ystod yr hydref 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Safonau Maeth ac Arlwyio Cymru Gyfan ar gyfer Bwyd a Diod i Gleifion Preswyl mewn Ysbytai**. Mae'r safonau hyn wedi disodli fframwaith maeth ac arlwyio 2002 ac maent yn darparu canllawiau technegol i staff sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion maethol cleifion³. Mae'r safonau hefyd yn nodi'r maetholion sydd eu hangen i ddiwallu anghenion amrywiol poblogaeth ysbytai. Roedd hi'n ofynnol i gyrff y GIG gydymffurfio'n llawn â'r safonau erbyn mis Ebrill 2013.

¹ Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, **Portffolio Ysbytai Acíwt – Adolygiad o ganfyddiadau cenedlaethol ar arlwyio**, Mawrth 2002

² www.wao.gov.uk/publication/hospital-catering-and-patient-nutrition

³ Nod y safonau maeth ac arlwyio yw diwallu anghenion maethol cleifion sy'n gallu bwyta ac yfed. Nid yw cleifion sy'n derbyn maeth drwy'r gwythiennau neu'r ymysgaroedd yn cael eu cwmpasu gan y safonau hyn.

-
5. I helpu i roi'r safonau ar waith, bu arlwywyr a deietegwyr o bob cwr o Gymru yn gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu'r Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan (AWMF), a lansiwyd ddiwedd mis Ionawr 2013. Mae'r fframwaith yn cynnwys cronfa ddata o set gytunedig o eitemau, set safonedig o ryseitiau a dulliau coginio, dadansoddiad maethol o bob eitem ac amrywiaeth o fyrbrydau sy'n cydymffurfio â'r safonau ac sy'n cael eu caffael trwy gontractau Cymru gyfan.
 6. Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cynnal diddordeb brwd yn y materion a nodwyd yng ngwaith yr Archwilydd Cyffredinol, gan gofnodi tystiolaeth gan dystion a chyhoeddi ei adroddiad ei hun ym mis Chwefror 2012⁴. Yn 2014, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol wrth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y byddai'n cyflawni gwaith dilynol priodol i fonitro sut mae cyrff y GIG wedi rhoi ei argymhellion lleol a chenedlaethol ar waith. Roedd yr ymrwymiad hwn yn cynnwys ystyried canfyddiadau unrhyw waith dilynol a gyflawnwyd yng nghyrrff y GIG ers 2010.

Ein prif ganfyddiadau

7. Rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2015, gwnaethom waith dilynol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) i asesu i ba raddau yr oedd wedi rhoi argymhellion cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar waith⁵. Aseswyd hefyd i ba raddau yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed fel rhan o'r archwiliad lleol yn 2010 ac eto yn 2013.
8. Daethom i'r casgliad fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd pellach o ran mynd i'r afael ag argymhellion i wella gwasanaethau arlwygo a maeth. Mae angen gwneud mwy o waith i gryfhau agweddau ar y broses sgrinio maethol, i wella profiadau cleifion o amser bwyd, i gau ymhellach y bwlch mewn incwm a chostau mewn perthynas â gwasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion ac i adolygu trefniadau cynllunio ac adrodd yn dilyn yr ad-drefnu diweddar. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd y rhesymau canlynol:
 - Mae trefniadau ar gyfer diwallu anghenion deietegol a maethol cleifion yn parhau i wella, ond mae'r broses sgrinio a'r ddarpariaeth diodydd a gwybodaeth i gleifion yn anghyson:
 - mae cleifion yn cael eu sgrinio am broblemau maethol, ond mae bylchau yn y broses yn effeithio ar ei chadernid;
 - mae cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maethol yn cael ei hasesu'n rheolaidd ac yn destun adroddiad lleol a chorfforaethol;
 - mae trefniadau i sicrhau bod cleifion yn gallu cael mynediad at fyrbrydau wedi gwella'n sylweddol, er bod cydymffurfiaeth â safonau ar gyfer darparu diodydd a newid jygiau dŵr yn parhau i gyflwyno her;

⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Arlwygo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai**, Chwefror 2012

⁵ Amlinellir ein dull archwilio yn **Atodiad 1**. Mae cwmpas y gwaith archwilio yn ymwneud yn benodol â chleifion sy'n gallu bwyta ac yfed yn normal.

-
- mae statws maethol yr eitemau ar y fwydlen yn cael ei asesu trwy'r Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan y mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio ag ef ar y cyfan; ac
 - ychydig iawn o wybodaeth ysgrifenedig sydd ar gael i gleifion am sut y bydd eu hanghenion maeth a hydradu yn cael eu diwallu.
 - Mae profiadau cleifion o amser bwyd yn parhau i wella:
 - mae amrywiaeth briodol o ddewisiadau bwyd ar gael i gleifion;
 - mae cymorth a goruchwyliaeth gan nyrsys yn ystod amser bwyd yn dda ar y cyfan; ac
 - mae amseroedd bwyd penodedig ar waith ar y cyfan.
 - Mae cost gwasanaethau arlwygo i gleifion wedi codi ac, er bod gwasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion yn dal i wneud colled, mae'r bwlch rhwng incwm a chost yn cau:
 - mae cost gwasanaethau arlwygo i gleifion wedi codi, ond mae cost pob pryd unigol yn amrywio rhwng ysbytai;
 - mae cost prydau heb eu gweini yn uwch o lawer yn Ysbyty Maelor Wrecsam; ac
 - mae gwasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion yn dal i wneud colled, ond mae'r bwlch rhwng incwm a chost yn cau.
 - Mae'r broses o adrodd ar faterion arlwygo a maeth a chael adborth gan gleifion wedi gwella, ond mae rhai trefniadau goruchwyllo yn gymhleth o hyd:
 - mae agweddau ar y broses o oruchwyllo a chraffu ar faterion arlwygo a maeth yn gymhleth o hyd;
 - mae adroddiadau gweithredol a chorfforaethol yn gliriach yn dilyn yr ad-drefnu, ond ychydig iawn o adroddiadau rheolaidd a gyflwynir i'r Bwrdd ar brofiadau cleifion; ac
 - mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau mecanweithiau ar gyfer cael adborth gan gleifion.
9. Mae canfyddiadau manwl o'r gwaith archwilio wedi'u crynhoi yng nghorff yr adroddiad hwn.

Argymhellion

10. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni 25 o'r 56 o argymhellion ac awgrymiadau a amlinellwyd yn ein hadroddiadau lleol a chenedlaethol. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ganolbwyntio ar roi gweddiill yr argymhellion a'r awgrymiadau ar waith lle nodir bod cynnydd yn cael ei wneud ond nad yw'r gwaith wedi'i gwblhau, neu lle rydym o'r farn nad oes llawer o gynnydd wedi'i wneud, os o gwbl. Mae'r argymhellion a'r awgrymiadau hyn wedi'u hamlinellu yn [Arddangosyn 1](#). Mae rhestr lawn o'r argymhellion a'r awgrymiadau lleol a chenedlaethol, ynghyd â statws pob un, yn [Atodiad 2](#).

Arddangosyn 1: Argymhellion ac awgrymiadau lleol a chenedlaethol sydd heb eu cyflawni ym mis Gorffennaf 2015

Sicrhau bod anghenion maeth cleifion yn cael eu diwallu

Cenedlaethol 2011

- A1b Rydym yn argymhell y dylai cyrff y GIG ddefnyddio'r canlyniadau a gyflwynir yn ein hadroddiadau archwilio lleol fel sail i sicrhau eu bod yn rhoi'r Llwybr Gofal Maethol Cymru Gyfan ar waith yn effeithiol. Yn arbennig, dylent sicrhau bod y broses sgrinio maethol yn nodi pob claf sydd â phroblemau maethol, neu sy'n wynebu risg o ddatblygu problemau o'r fath, a bod cynlluniau gofal a gweithgareddau monitro priodol yn cael eu rhoi ar waith (*Cenedlaethol*).
- A1d Os nodir cydymffurfiaeth wael â gofynion y llwybr gofal maethol, rydym yn argymhell y dylai cyrff y GIG benderfynu beth yw'r rhesymau dros hyn a rhoi cynlluniau gweithredu clir ar waith i fynd i'r afael â'r broblem a chynnwys darpariaeth hyfforddiant angenrheidiol i staff.
- A15 Cynnwys maeth sylfaenol yn y rhaglen hyfforddi ar gyfer staff arlwygo wardiau i wella eu hymwybyddiaeth o'i bwysigrwydd a'r angen i ddilyn gweithdrefnau'r ward.
- A16 Atgyfnerthu'r angen i fesur pwysau a thaldrâ claf er mwyn cyfrifo Mynegai Mâs Corff (BMI) y claf.

Gwella profiadau cleifion o amser bwyd

Cenedlaethol 2011

- A3a Rydym yn argymhell y dylai cyrff y GIG sicrhau bod eu bwydlenni'n darparu dewis priodol o fwyd a bod y trefniadau ar gyfer archebu a gweini bwyd yn cefnogi dewis y claf.

Rheoli costau'r gwasanaeth arlwygo

Cenedlaethol 2011

- A4b Rydym yn argymhell y dylai cyrff y GIG gyflwyno systemau gwybodaeth arlwygo cyfrifiadurol sy'n cynnwys dadansoddiad clir o gostau a manteision o gymharu â'r systemau gwybodaeth presennol.
- A5b Rydym yn argymhell y dylai cyrff y GIG adolygu eu mecanweithiau presennol ar gyfer rheoli costau i sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o lwfansau bwyd a diod dyddiol ar gyfer cleifion.
- A6b Rydym yn argymhell y dylai cyrff y GIG fonitro gwastraff bwyd yn rheolaidd yn unol â chanllawiau clir ynglŷn â'r hyn a ystyrir yn fwyd heb ei weini, ac y dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i gynhyrchu cymariaethau ystyrion, yn lleol ac yn genedlaethol.
- A6c Rydym yn argymhell y dylai'r broses o fonitro gwastraff bwyd gynnwys nodi'r rhesymau dros y gwastraff, ac y dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella systemau a phrosesau sy'n achosi'r gwastraff.
- A7b Rydym yn argymhell y dylai cyrff y GIG fonitro incwm a gwariant gwasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion yn rheolaidd i sicrhau bod perfformiad ariannol y gwasanaethau hyn yn ôl y disgwyl ac nad yw'r gwasanaethau'n mynd i ddiffyg annerbyniol.

Lleol 2010

- A6 Cyflwyno polisi cymhorthdal clir i osod y fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau arlwyio ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion.
- A7 Datblygu trefniadau cyfrifyfr cyson ar draws y Bwrdd lechyd i sicrhau bod gwybodaeth ddigonol a chadarn ar gael am fusnesau arlwyio.

Dilynol 2011

- A7 Dylai'r Bwrdd lechyd geisio creu gwybodaeth ariannol gyson a chymaradwy ym maes arlwyio sy'n adlewyrchu costau go iawn darpariaethau a gwasanaethau bwyd. Ochr yn ochr â hyn, dylai'r Bwrdd lechyd geisio lleihau'r amrywiaeth mewn dulliau ariannu ym maes arlwyio a sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth arlwyio i sicrhau'r profiadau gorau posibl i gleifion o amser bwyd.

Cynllunio a monitro gwasanaethau yn effeithiol

Cenedlaethol 2011

- A10a Rydym yn argymhell y dylai cyrff y GIG ddatblygu dull mwy cynhwysfawr o adrodd ar berfformiad gwasanaethau arlwyio a maeth cleifion i'r Bwrdd, sy'n dwyn ynghyd wybodaeth am roi'r llwybr gofal maethol ar waith, data perfformiad ar gostau gwasanaethau i gleifion a gwasanaethau ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion, gwastraff bwyd ac adborth gan gleifion a pherthnasau, ac y dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno i'r Bwrdd yn flynyddol o leiaf a gwneud defnydd priodol o ddata EFPMS.
- A10b Rydym yn argymhell y dylai cyrff y GIG gyfuno'r wybodaeth o'r broses sgrinio maethol am nifer y cleifion sydd â phroblemau maethol, neu sy'n wynebu risg o ddatblygu problemau o'r fath, i ddeall maint y broblem a'r effaith debygol ar wasanaethau arlwyio a maeth er mwyn diwallu anghenion y cleifion hyn.
- A11a Rydym yn argymhell y dylai cyrff y GIG sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth am farn cleifion ar wasanaethau arlwyio rhwng prif nyrsys ward a'r gwasanaeth arlwyio.
- A11b Rydym yn argymhell y dylai cyrff y GIG ddangos sut y maent wedi ystyried barn cleifion wrth ddatblygu gwasanaethau arlwyio a maeth.

Lleol 2010

- A1 Cryfhau trefniadau cynllunio strategol ar gyfer arlwyio i sicrhau agenda glir a chyson ar gyfer y gwasanaeth arlwyio ledled y Bwrdd lechyd.
- A2 Sefydlu strwythurau cynllunio ar gyfer gwasanaethau arlwyio a maeth sy'n gyson ledled y Bwrdd lechyd.
- A5 Gwella trefniadau craffu'r Bwrdd ar gyfer monitro risgiau a pherfformiad y gwasanaethau arlwyio a maeth.
-

Dilynol 2013

- A1 Er bod trefniadau cynllunio strategol wedi'u cryfhau, mae angen eu datblygu ymhellach i sicrhau bod agenda glir a chyson a phrosesau cyson ar waith ledled y Bwrdd Iechyd yn ôl y gofyn.
- A2 Er bod cynlluniau ar gyfer y gwasanaethau maeth wedi gwella'n sylweddol, mae angen cryfhau ymhellach y cynlluniau ar gyfer y gwasanaethau arlwy.
- A5 Cynnwys maeth ac arlwy yn yr adroddiadau ansawdd a chyflwyno adroddiadau ansawdd i'r Bwrdd.
- A5** Efallai bod y strwythur grŵp INCHS yn rhy gymhleth, sy'n gallu arwain at ddiffyg llinellau atebolrwydd clir.

Adroddiad manwl

Mae trefniadau ar gyfer diwallu anghenion deietegol a maethol cleifion yn parhau i wella, ond mae'r broses sgrinio a'r ddarpariaeth diodydd a gwybodaeth i gleifion yn anghyson

11. Yn 2010, roedd llawer o ysbytai yng Nghymru wedi gwella eu trefniadau i ddiwallu anghenion maethol cleifion, ond roedd gwybodaeth yn dameidiog ac nid oedd yn galluogi trosolwg cyflym o broblemau maethol cleifion nac adolygiad rhwydd o statws maethol cleifion. Efallai bod y diffyg dogfennau nyrsio safonedig i gofnodi gwybodaeth asesu allweddol wedi cyfrannu at yr amrywiad yn ansawdd y cofnodion nyrsio. Nid oedd pob un o gyrff y GIG yn monitro cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maethol yn rheolaidd.
12. Yn y Bwrdd Iechyd ar y pryd, nid oedd pob ward yn gwneud gwaith sgrinio maethol, ac roedd y broses sgrinio yn anghyson rhwng ysbytai, gyda gwybodaeth wedi'i chofnodi ar draws gwahanol ddogfennau. Nid oedd yna lawer o asesiadau o iechyd y geg cleifion ac nid oedd defnydd cleifion o fwyd a diod yn cael ei fonitro na'i gofnodi'n gyson. Yn ystod ein gwaith archwilio dilynol yn 2013, gwelwyd bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno cynlluniau gofal maethol a dogfennau asesu nyrsio safonedig a oedd yn helpu i wella ansawdd sgrinio maethol.

Mae cleifion yn cael eu sgrinio am broblemau maethol, ond mae bylchau yn y broses yn effeithio ar ei chadernid


13. Mae **Improving Food, Fluids and Nutritional Strategy for Patients**, a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Iechyd yn 2013, yn ceisio sicrhau bod pob oedolyn yn cael ei sgrinio wrth gael ei dderbyn a bod camau priodol yn cael eu cymryd yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Fel rhan o'n gwaith yn 2015, aethom ati i adolygu set o nodiadau achos ar bob un o'r tair ward i ni ymweld â nhw fel rhan o'r archwiliad; 15 o nodiadau achos i gyd. Aethom ati i asesu a oedd staff nyrsio yn gwneud gwaith sgrinio maethol ar gleifion wrth iddynt gael eu derbyn, ac o leiaf bob wythnos ar ôl hynny, yn ogystal ag ansawdd y broses sgrinio maethol. Roeddem yn edrych am wybodaeth y byddem yn disgwyl ei gweld fel rhan o'r broses derbyn a sgrinio, megis mesuriadau pwysau, taldra, Mynegai Mâs y Corff (BMI), achos diweddar o golli pwysau yn anfwriadol, archwaeth presennol, deiet 'normal', gofynion deietegol arbennig, y gallu i fwyta'n annibynnol, anawsterau bwyta neu yfed a phroblemau gydag iechyd a hylendid y geg, gan gynnwys dannedd.

-
14. Yn ôl ein hadolygiad o nodiadau achos, roedd staff nyrsio fel arfer yn sgrinio ac ail-sgrinio cleifion gan ddefnyddio'r adnodd sgrinio maethol MUST, ond roedd mesuriadau taldra a BMI yn cael eu hamcangyfrif yn aml. Er enghraifft, ar Ward Glyder, Ysbyty Gwynedd (YG), roedd tri o'r pum cofnod a adolygwyd yn cynnwys amcangyfrifon o daldra a BMI; roedd un heb bwysau, taldra na BMI wedi'u cofnodi; ac roedd un heb bwysau na thaldra wedi'u cofnodi, ond gydag amcangyfrif o'r BMI. Yn Adolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol diweddar Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar wardiau ledled y Bwrdd Iechyd, daethpwyd o hyd i amryw o faterion yn ymwneud ag ansawdd a chyflawnrwydd cynlluniau gofal a dogfennau cleifion.
 15. Mae'r Safonau Maeth ac Arlwygo Cymru Gyfan yn ei gwneud hi'n glir bod iechyd y geg a chyfathrebu yn rhan o ofal maethol. Gwelwyd bod pob un o'r 15 o nodiadau achos cleifion yn cynnwys asesiad o iechyd y geg. Mae hwn yn welliant sylweddol ers ein canfyddiadau yn 2010, pan welwyd bron dim tystiolaeth o'r math hwn o asesiad. Yn ogystal, gwelodd archwiliad Hanfodion Gofal y Bwrdd Iechyd yn 2014 welliant o ran cydymffurfiaeth, gydag 83 y cant o gleifion â chofnod o asesiad o iechyd y geg o gymharu â llai na hanner y cleifion y flwyddyn flaenorol.
 16. Mae **Improving Food, Fluids and Nutritional Strategy for Patients** y Bwrdd Iechyd yn dangos y dylai fod gan bob claf gynllun gofal ar gyfer maeth sy'n nodi risg, hoff bethau, cas bethau, anghenion diwylliannol neu grefyddol yn ymwneud â bwyd, unrhyw alergeddau bwyd neu unrhyw anawsterau corfforol gyda bwyta neu yfed. Gwelwyd bod gwybodaeth am alluoedd swyddogaethol cleifion mewn perthynas â bwyta ac yfed, megis y gallu i fwydo eu hunain, symudedd ac anawsterau llyncu, yn cael ei chipio fel rhan o'r broses sgrinio. Fodd bynnag, ychydig iawn o wybodaeth oedd wedi'i chofnodi am hoff bethau, cas bethau, archwaeth a deiet arferol.
 17. Ym mis Chwefror 2015, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd ddogfennau nyrsio safonol ar draws y rhan fwyaf o'r wardiau aciwt i helpu staff rheng flaen i gofnodi a dangos tystiolaeth o'r gofal y maent yn ei ddarparu mewn ffordd sy'n canolbwyntio mwy ar y claf. Mae'n ymgorffori sgwrs 'yr hyn sy'n bwysig i mi' rhwng y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a'r claf. Fodd bynnag, nid yw'r dogfennau hyn wedi'u cynnwys yn nodiadau cleifion hyd yma, ac nid ydynt yn cynnwys anogwyr am wybodaeth megis hoff bethau a chas bethau o ran bwyd.
 18. O'r 15 o nodiadau achos a adolygwyd, dim ond tri chlaf oedd angen cynllun gofal maethol. O'r tri chlaf hyn, ni lwyddwyd i ddod o hyd i gynllun gofal ar gyfer un ohonynt, er bod y claf hwn wedi cael ei atgyfeirio i ddeietegydd, a'i asesu ganddo. Os oedd gan gleifion sgoriau risg faethol uchel, roedd siartiau bwyd a diod yn cael eu defnyddio'n briodol. Roedd staff nyrsio hefyd yn monitro'n rheolaidd y defnydd o fwyd a diod ymhlith cleifion yr oeddent yn poeni amdanynt er gwaethaf sgôr MUST 'normal'.
 19. Mae'r Bwrdd Iechyd yn hyrwyddo annibyniaeth cleifion wrth fwyta ac yfed a chymorth i gleifion sydd angen help, gyda'r asesiad maethol a'r cynllun gofal maethol safonedig yn sail i'r pethau hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd wedi cyflwyno 'rowndiau bwriadol' ar wardiau ac wedi cyflwyno ei becyn cymorth 'Putting Nutrition at the Heart of Human Rights', sydd hefyd yn hyrwyddo annibyniaeth a chymorth i'r rhai sydd angen help i fwyta ac yfed.

Mae cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maethol yn cael ei hasesu'n rheolaidd ac yn destun adroddiad lleol a chorfforaethol

20. Yn 2010, nid oedd pob un o gyrff y GIG yn monitro cydymffurfiaeth â'r llwybr gofal, ac argymhellwyd y dylai'r Bwrdd lechyd sefydlu trefniadau ar gyfer asesu cydymffurfiaeth yn rheolaidd. Mae **Improving Food, Fluids and Nutritional Strategy for Patients**, a gyhoeddwyd gan y Bwrdd lechyd yn 2013, yn nodi bod gwerthuso ac archwilio yn rhan allweddol o'r cylch gwella parhaus, ac mae'n cyfeirio at gylch archwilio rheolaidd i'w gynnal a'i adolygu gan y grŵp **Improving Nutrition, Catering and Hydration Standards** (INCHS) yn flynyddol. Yn ystod ein hadolygiad dilynol yn 2013, gwelwyd bod y Bwrdd lechyd yn datblygu dull archwilio i asesu cydymffurfiaeth ac, erbyn 2015, roedd y Bwrdd lechyd yn defnyddio'r dull archwilio hwn i gynnal archwiliadau sgrinio MUST a monitro cydymffurfiaeth trwy Ddangosfwrdd Nyrso y Bwrdd lechyd.
21. Yn ogystal, mae cydymffurfiaeth â sgrinio maethol yn cael ei hasesu trwy'r Archwiliad Ansawdd a Diogelwch, ac mae adroddiad misol yn cael ei gynhyrchu gan ddefnyddio'r system fetrig nyrso Hanfodion Gofal Cymru Gyfan. Y dull mesur perthnasol yw a yw asesiad maethol yn cael ei wneud ac a yw camau priodol yn cael eu cymryd o fewn 24 awr i dderbyn y claf. Mae data a gafodd y Bwrdd lechyd o'r system Hanfodion Gofal ar 11 Mai 2015 yn dangos bod cydymffurfiaeth yn amrywio'n sylweddol rhwng ysbytai aciwt ac ysbytai cymunedol ([Arddangosyn 2](#)). Roedd Ysbyty Glan Clwyd (YGC) yn perfformio'n waeth nag Ysbyty Maelor Wrecsam (YMW) ac Ysbyty Gwynedd (YG) yn gyson. Ar y cyfan, roedd lefelau cydymffurfiaeth yn 91 y cant ar draws y Bwrdd lechyd.

Arddangosyn 2: Rhwng mis Mai 2014 a mis Ebrill 2015, roedd cydymffurfiaeth â sgrinio maethol yn amrywio'n sylweddol rhwng ysbytai aciwt ac ysbytai cymunedol



Ffynhonnell: Canfyddiadau Hanfodion Gofal Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

-
22. Cynhaliodd deietegwyr eu hadolygiad eu hunain o sgrinio maethol yn 2011 ac eto yn 2014. Roedd yr asesiadau'n cynnwys amryw o feini prawf, gan gynnwys:
- canran y cofnodion cleifion sy'n cynnwys asesiad maethol wedi'i gwblhau; a
 - chanran yr asesiadau maethol a oedd yn gywir.
23. Er bod y dull cenedlaethol o fesur cydymffurfiaeth â sgrinio maethol (gweler uchod) yn wahanol, mae adolygiad deietegwyr lleol o sgrinio maethol yn awgrymu bod angen gwneud mwy nag y mae'r dull cenedlaethol yn ei awgrymu. Yn 2011, gwelodd deietegwyr fod 41 y cant o nodiadau achos cleifion a adolygwyd yn cynnwys asesiad maethol wedi'i gwblhau. O'r rhain, gwerthuswyd bod 49 y cant yn gywir. Erbyn 2014, roedd 62 y cant o nodiadau achos cleifion a adolygwyd yn cynnwys asesiad maethol wedi'i gwblhau. O'r rhain, gwerthuswyd bod 65 y cant yn gywir.
24. Mae gan y Bwrdd Iechyd system o Archwiliadau Ansawdd a Diogelwch misol a adolygir gan gymheiriaid, sy'n cynnwys dangosyddion yn ymwneud â'r llwybr gofal maethol. Adroddir y canfyddiadau i'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, sy'n eu rhannu gyda'r is-grwpiau ansawdd, diogelwch a phrofiad rhanbarthol. Mae'r Bwrdd yn derbyn sgoriau o hapwiriadau, gan ddefnyddio'r Broses Archwilio Ansawdd a Diogelwch, ar sawl agwedd ar y llwybr gofal maethol fel rhan o'i system fetrig 'Ward i Fwrdd', er enghraifft, cydymffurfiaeth ag agweddau ar amseroedd bwyd penodedig, cymorth i gleifion gyda bwyd a diod a chwblhau gwybodaeth faethol mewn nodiadau achos. Aethom ati i adolygu'r sgoriau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Awst 2014 a mis Ebrill 2015. Roedd y rhain ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn gyffredinol, ac nid oeddent yn cynnwys sgoriau ar gyfer ysbytai unigol.
25. Yn 2010, nid oedd unrhyw raglenni hyfforddi rheolaidd na hyfforddiant diweddar ar gyfer staff ward i'w helpu i gynnal eu hymwybyddiaeth wrth ddefnyddio dulliau sgrinio maethol a dogfennau asesu. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru becyn hyfforddi e-ddysgu ynghylch y llwybr gofal maethol Cymru gyfan a siartiau bwyd a diod Cymru gyfan ym mis Medi 2011. Roedd hi'n ofynnol i bob aelod o staff nyrsio ward gwblhau'r pecyn hyfforddi e-ddysgu o fewn 12 mis i'r dyddiad hwn, a dylai staff newydd ei gwblhau o fewn 12 mis i gael eu penodi.
26. Erbyn 2013, roedd 2,050 o staff a myfyrwyr wedi cofrestru ar gyfer y rhaglen e-ddysgu, gyda 947 o'r rhain wedi cwblhau neu roi cynnig ar yr hyfforddiant. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi achub y blaen ar fyrdau iechyd eraill, er gwaethaf yr heriau technegol a oedd yn gysylltiedig â'r hyfforddiant. Mae ffigurau diweddar yn dangos bod 1,540 o staff nyrsio yn y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau neu roi cynnig ar yr hyfforddiant. Nid oedd hi'n ymarferol i'r Bwrdd Iechyd nodi cyfanswm y nyrsys a fydd angen cwblhau'r e-ddysgu. Yn ystod ein hymweliadau, dywedodd rheolwyr ward wrthym eu bod yn darparu cyfleoedd i staff gwblhau'r hyfforddiant, ond eu bod yn dal i gael problemau technegol wrth geisio defnyddio'r porth gwe.
27. Erbyn 2013, roedd arbenigwyr nyrsio clinigol sy'n arbenigo mewn maeth yn darparu rhaglen dreigl o hyfforddiant ar draws wardiau aciwt, safleoedd cymunedol a'r sector cartrefi nyrsio. Roedd yr hyfforddiant yn cwmpasu'r holl feysydd risg uchel, megis sgrinio MUST, cynllunio gofal a gwneud penderfyniadau moesegol. Yn ystod ein hadolygiad diwethaf, dywedwyd wrthym fod yr arbenigwyr nyrsio clinigol sy'n arbenigo mewn maeth wedi bod yn datblygu a chyflwyno'r pecyn cymorth **Putting Nutrition at**

the Heart of Human Rights, yn ogystal ag agweddau eraill ar hyfforddiant. Mae deietegwyr hefyd yn derbyn ceisiadau am hyfforddiant pwrpasol yn seiliedig ar angen, er bod eu gallu i ymateb yn cael ei ddylanwadu gan ymrwymïadau eraill. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod pwysigrwydd hyfforddiant ac mae tîm y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol a thîm y Gweithlu a Datblygu Addysgol yn cyflwyno fframwaith addysg ledled y bwrdd iechyd ar faeth i nyrsys.

Mae trefniadau i sicrhau bod cleifion yn gallu cael mynediad at fyrbrydau wedi gwella'n sylweddol, er bod cydymffurfiaeth â safonau ar gyfer darparu diodydd a newid jygïau dŵr yn parhau i gyflwyno her

28. Yn 2010, gwelwyd bod gan y rhan fwyaf o ysbytai drefniadau ar waith i ddarparu byrbrydau, ond nododd llawer o gleifion nad oedd byrbrydau ar gael rhwng prydau. Nododd y Safonau Maeth ac Arlwygo Cymru Gyfan y dylai byrbrydau gael eu cynnig i gleifion ddwy neu dair gwaith y dydd, gyda byrbrydau nos yn cael eu cynnig i bob claf oherwydd y bwlch hir rhwng y pryd nos a brecwast. Yn y Bwrdd Iechyd, roedd y trefniadau ar gyfer archebu byrbrydau a'r meini prawf cymhwysedd yn amrywio rhwng ysbytai, ac nid oedd yna gyllideb ar gyfer byrbrydau.
29. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ariannu darpariaeth byrbrydau ers 1 Ebrill 2013. Yn ôl archwiliad Hanfodion Gofal 2014, roedd ardaloedd ward yn cydymffurfio'n llawn trwy ddarparu amrywiaeth o fyrbrydau i gleifion a oedd wedi methu prydau neu a oedd eisïau bwyd rhwng prydau, gyda 94 y cant o gleifion yn derbyn bwyd a byrbrydau maethlon bob amser neu fel arfer.
30. Mae Bwydlenni Byrbrydau ar waith ledled y Bwrdd Iechyd. Dangosir y byrbrydau ar fwydlenni claf mewnol yr ysbytai. Mae'r fwydlen ginio yn hysbysebu byrbryd canol y prynhawn, sef bisgedi, ac mae'r fwydlen swper yn hysbysebu'r byrbryd nos, sef cacen o ryw fath. Yn ogystal, mae gan bob ward gyflenwadau bach o fara a grawnfwydydd fel y gall cleifion fwyta y tu allan i'r amser bwyd arferol. Mae'r eitemau hyn yn cael eu cadw ar lefel ward ac yn cael eu hailgyflenwi yn ôl yr angen.
31. Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i ddatblygu a chyflwyno bwydlen byrbrydau MUST i ategu deiet cleifion y nodir eu bod yn wynebu risg faethol (gyda sgôr risg faethol o ddau neu fwy) ledled y Bwrdd Iechyd. Mae'r fwydlen yn cynnwys eitemau megis brechdanau, cracers, pwdin reis, cwstard a myffins. Mae gweithwyr cymorth gofal iechyd yn helpu cleifion i archebu rhywbeth o'r fwydlen, cyn anfon yr archeb honno i'r gegin.
32. Nododd adroddiad blynyddol Hanfodion Gofal y Bwrdd Iechyd fod ceisio cyflawni'r safonau ar gyfer darparu diodydd a newid jygïau dŵr yn parhau i gyflwyno her. Dim ond 41 y cant o wardïau oedd yn gallu sicrhau bod jygïau dŵr yn cael eu hail-lenwi dair gwaith y dydd, a dim ond 69 y cant o wardïau oedd yn llwyddo i ddarparu diodydd o leiaf saith gwaith yn ystod y dydd.

Mae statws maethol yr eitemau ar y fwydlen yn cael ei asesu trwy'r Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan y mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio ag ef ar y cyfan

33. Yn 2010, gwelwyd bod deietegwyr yn cyfrannu at gynllunio bwydlenni ym mhob ysbyty, ond nad oedd statws maethol pob bwydlen wedi'i asesu ac roedd y trefniadau ar gyfer goruchwyllo unrhyw newidiadau i fwydlenni yn amrywio ar draws y Bwrdd Iechyd. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Safonau Maeth ac Arlwygo Cymru Gyfan, sy'n nodi'r 12 o faetholion i'w dadansoddi.
34. Ym mis Ionawr 2013, lansiodd y Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan (AWMF) i helpu i roi'r safonau hyn ar waith. Ar y pryd, roedd Grŵp Gweddnewid Gwasanaeth Bwyd y Bwrdd Iechyd, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr deietegig ac arlwygo, yn gweithio'n agos gyda'r Deietegydd Arweiniol Cymru Gyfan i roi'r AWMF ar waith. Erbyn hyn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â'r AWMF ar y cyfan ac mae bwydlenni yn destun adolygiad cyfunol gan reolwyr arlwygo a deietegwyr. Cafodd Grŵp Gweddnewid y Gwasanaeth Bwyd ei ddiddymu ar ôl i'r fframwaith bwydlenni gael ei roi ar waith ac ar ôl i gylch neu gynnwys y bwydlenni gael ei rannu gydag INCHS.
35. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gyfrannu at y Grŵp Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan lle trafodir cydymffurfiaeth â'r fframwaith bwydlenni a'r safonau arlwygo a maeth, yn ogystal â sut y gellir ymgorffori'r rhain yn y mecanweithiau adrodd presennol ledled y GIG.

Ychydig iawn o wybodaeth ysgrifenedig sydd ar gael i gleifion am sut y bydd eu hanghenion maeth a hydradu yn cael eu diwallu

36. Mae Safonau Maeth ac Arlwygo Cymru Gyfan 2011 yn ei gwneud hi'n glir y dylid darparu gwybodaeth i gleifion a'u gofalwyr am yr hyn y dylent ei ddisgwyl mewn perthynas â phrydau a byrbrydau yn ystod eu hamser yn yr ysbyty. Yn 2012, cyhoeddodd Prif Swyddog Meddygol a Phrif Swyddog Nyrsio Cymru lythyr ar y cyd mewn perthynas â'r ddarpariaeth bwyd ac arlwygo mewn ysbytai, gan ofyn i gyrff y GIG ddarparu i gleifion y wybodaeth a amlinellir yn nhaflen yr Archwilydd Cyffredinol, **Eating Well in Hospital – What You Should Expect**.
37. Yn ystod ein hadolygiad diweddar, dywedodd staff ward wrthym nad yw cleifion yn derbyn gwybodaeth reolaidd am sut y bydd yr ysbyty yn diwallu eu hanghenion a'u dewisiadau maethol. Mae rhai wardiau yn darparu gwybodaeth, ond nid yw hyn yn gyson. Gwelwyd gwybodaeth arlwygo a siartiau maeth ar fyrddau mewn rhai wardiau ond, unwaith eto, roedd hyn yn amrywio rhwng wardiau.

Mae profiadau cleifion o amser bwyd yn parhau i wella

38. Yn 2010, roedd y rhan fwyaf o ysbytai yn darparu dewis priodol o brydau ac roedd cleifion yn fodlon ar y cyfan â'r bwyd roeddent yn ei dderbyn. Fodd bynnag, nid oedd pob claf yn cael yr help yr oedd ei angen arno yn ystod amser bwyd ac nid oedd rhai wardiau yn rhoi egwyddorion amseroedd bwyd penodedig ar waith yn iawn. Yn y

Bwrdd Iechyd, gwelwyd bod y rhan fwyaf o wardiau wedi mabwysiadu amseroedd bwyd penodedig, er nad oedd yna bolisi ffurfiol ar waith. Yn ystod ein gwaith dilynol yn 2013, gwelwyd bod y Bwrdd Iechyd yn dal i asesu gofynion amseroedd bwyd penodedig.

39. Roedd yna sawl thema yn ymwneud â maeth ac arlwygo yn adroddiadau arolygu Urddas a Gofal Hanfodol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, yn dilyn arolygiadau dirybudd yn y Bwrdd Iechyd yn ystod 2014 a 2015. Er i'r arolygiadau ddod i'r casgliad bod cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan ynglŷn â gwasanaethau bwyd, gwelwyd hefyd ddiffyg cydgysylltiad a chydymffurfiaeth ag egwyddorion amseroedd bwyd penodedig, achosion lle nad oedd siartiau bwyd a diod wedi'u cwblhau yn gywir a diffyg cymorth hyfforddedig yn ystod amser bwyd i gleifion â namau gwybyddol.

Mae amrywiaeth briodol o ddewisiadau bwyd ar gael i gleifion

40. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu cylch bwydlen dros bythefnos. Mae'r dewisiadau ar y fwydlen yn cydymffurfio â Safonau Maeth ac Arlwygo Cymru Gyfan. Mae pob claf yn YG ac YGC yn cael cyfle i ddewis o fwydlen ddyddiol a dewis maint y pryd a ddarperir iddynt. Mae YMW yn gweithredu system weini swmp ac mae cleifion yn gallu dewis o'r opsiynau sydd ar gael ar y troli bob amser bwyd.
41. Mae bwydlenni ar gyfer cleifion â deiet arbennig a therapiwtig ar gael hefyd. Mae prydau arbennig ar gyfer cleifion sy'n ei chael hi'n anodd llyncu bwyd wedi'u haddasu i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau ansawdd a maeth.
42. Mae'r grŵp INCHS yn adolygu bwydlenni cleifion. Adeg ein gwaith maes, roedd y Grŵp Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan wedi cynnal arolwg o gleifion mewnol ar draws holl gyrff y GIG ynglŷn â'r dewis ac ansawdd y bwyd. Disgwyliwyd dadansoddiad o'r canfyddiadau ddiwedd yr haf.

Mae cymorth a goruchwyliaeth gan nyrsys yn ystod amser bwyd yn dda ar y cyfan

43. Fel rhan o'n harchwiliad diweddaraf, ymwelwyd â thair ward, un yn YG, un yn YGC ac un yn YMW, i gyfarfod â staff ward ac i arsylwi ar y gwasanaethau bwyd amser cinio. Ar y cyfan, daethom i'r casgliadau canlynol:
- roedd staff arlwygo wardiau yn wybodus ac yn ymateb i anghenion maethol a dewisiadau deietegol cleifion, a byddent yn addasu maint prydau yn ôl yr angen;
 - yn YMW, nid yw dewisiadau bwyd yn cael eu harchebu ymlaen llaw, gyda staff yn gofyn i gleifion beth yr hoffent ei fwyta ar ôl i'r troli gyrraedd y ward;
 - roedd cleifion sy'n wynebu risg faethol yn cael eu nodi yn ystod cyfarfodydd trosglwyddo a diogelwch, ac roedd arwyddion maeth uwchben gwelyau cleifion yn hysbysu staff am anghenion deietegol penodol;
 - roedd cleifion yn cael eu hannog i fwyta eu prydau yn ystafell fwyta'r ward os oeddent yn gallu gwneud hynny fel rhan o'u rhaglen adsefydlu; ac

- roedd staff yn darparu cymorth amserol i gleifion oedd angen help i fwyta ac yfed ond, mewn nifer fach o achosion, gallai cleifion ag archwaeth gwael fod wedi derbyn mwy o anogaeth i fwyta'r pryd a ddarparwyd.
44. Mae **Arddangosyn 3** yn amlinellu'r gwahaniaethau a welwyd rhwng arferion amser bwyd ar draws y tair ward. Mae ein harsylwadau yn seiliedig ar y gweithgareddau y disgwyliwyd i staff eu cynnal ac a oedd y camau hyn yn berthnasol i bob claf, y rhan fwyaf o'r cleifion, rhai cleifion neu ddim un o'r cleifion.

Arddangosyn 3: Camau allweddol a arsylwyd fel rhan o'r gwasanaeth amser cinio

Arsylwadau o'r gwasanaeth amser cinio	Ward	YG Glyder	YGC 14	YMW UDM
Cleifion yn cael help i baratoi ar gyfer amser bwyd, gan gynnwys mynd i'r toiled, golchi dwylo ac eistedd i fyny neu godi allan o'r gwely		Pob un	Pob un	Rhan fwyaf
Ardaloedd/byrddau yn cael eu tacluso cyn gweini prydau		Pob un	Pob un	Rhai
Gwastraff clinigol yn cael ei glirio o ardaloedd/byrddau		Pob un	Pob un	Pob un
Staff arlwygo ward yn gwisgo dillad gwarchodol		Pob un	Pob un	Pob un
Tymheredd prydau yn cael ei gofnodi cyn dechrau'r gwasanaeth ¹		Dim ¹	Dim ¹	Dim ¹
Staff nyrsio yn helpu staff arlwygo ward/staff gwesty yn ystod y gwasanaeth		Pob un	Pob un	Pob un
Cleifion sydd angen help i fwyta yn cael eu nodi'n rhwydd		Pob un	Pob un	Pob un
Prydau yn cael eu gadael o fewn cyrraedd y cleifion		Pob un	Pob un	Pob un
Cleifion yn cael help i dorri'r bwyd neu dynnu'r deunydd pacio		Pob un	Pob un	Pob un
Cleifion sydd angen help yn cael help yn brydlon		Pob un	Pob un	Rhan fwyaf
Staff nyrsio yn goruchwyllo ac annog cleifion i fwyta gydol amser bwyd		Pob un	Pob un	Rhan fwyaf

¹ Roedd tymheredd y prydau a anfonwyd i fyny i'r wardiau wedi'i gofnodi cyn i'r troli adael y gegin.

Ffynhonnell: Arsylwadau Swyddfa Archwilio Cymru o wasanaethau amser cinio

45. Yn ôl archwiliad Hanfodion Gofal 2014, roedd gan bron pob un o'r wardiau (98 y cant) systemau ar waith i alluogi teulu neu ffrindiau i helpu gydag amser bwyd. Ar y tair ward yr ymwelwyd â nhw, dywedodd staff nyrsio wrthym eu bod yn croesawu ac annog teulu a ffrindiau i helpu cleifion yn ystod amser bwyd yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd. Yn ystod ein hymweliadau, arsylwyd ar deuluoedd yn helpu eu perthnasau i fwyta.

-
46. Yn ogystal, sylwodd archwiliad Hanfodion Gofal 2014 fod nyrs gofrestredig yn cydgyssylltu pob amser bwyd ar 89 y cant o'r wardiau, gyda staff nyrsio yn cymryd rhan yn y gwasanaeth amser bwyd ar 98 y cant o'r wardiau.

Mae amseroedd bwyd penodedig ar waith ar y cyfan

47. Mae diweddariad o'r polisi amseroedd bwyd penodedig wedi'i ddrafftio gan y tîm cymorth maethol nyrsio, ac fe'i cyflwynir i INCHS yn ei gyfarfod nesaf cyn gofyn i'r Bwrdd ei gymeradwyo.
48. Mae'r Archwiliadau Ansawdd a Diogelwch misol a adolygir gan gymheiriaid yn cynnwys amryw o ddangosyddion yn ymwneud ag amseroedd bwyd penodedig, gan gynnwys a yw cleifion yn cael eu paratoi'n ddigonol ar gyfer y pryd, a ydynt yn cael help i fwyta ac yfed ac a yw diodydd yn cael eu gadael o fewn cyrraedd cleifion. Gwelwyd ffigurau cryno'r Bwrdd Iechyd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Awst 2014 a mis Ebrill 2015, gan ddangos bod lefelau cydymffurfiaeth yn y meysydd hyn yn uchel.
49. Roedd y rheolwyr ward i ni siarad â nhw yn ffyddiog ar y cyfan fod amseroedd bwyd penodedig yn gweithio'n dda, gyda chydweithwyr proffesiynol yn cefnogi'r egwyddorion. Fodd bynnag, gwelwyd bod cydymffurfiaeth â'r dull amseroedd bwyd penodedig yn amrywio i ryw raddau rhwng y wardiau yr ymwelwyd â nhw. Gwelwyd y canlynol:
- Amrywiad yn yr arwyddion a ddefnyddir wrth y mynedfeydd i wardiau i esbonio amseroedd a diben amseroedd bwyd penodedig.
 - Ni welwyd unrhyw arwydd wrth y fynedfa i'r Uned Derbyniadau Meddygol (MAU) yn YMW, a dywedodd staff wrthym ei bod hi'n anoddach cydymffurfio ag amseroedd bwyd penodedig gan fod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i lif cleifion ac anghenion clinigol. Cymerwyd samplau gwaed gan sawl claf ac nid oedd unrhyw beth yn cael ei wneud i sgrinio'r gweithgarwch hwn oddi wrth gleifion eraill a oedd yn bwyta gerllaw.
 - Roedd rowndiau meddygol a meddyginiaeth arferol yn dod i ben ar ddechrau'r gwasanaeth bwyd ac, ar y cyfan, roedd staff gofal iechyd proffesiynol yn gadael ardaloedd y cleifion, gyda'r staff yn aros; roedd llai o ryngweithio gyda chleifion a staff nyrsio.
 - Ar y cyfan, roedd gweithgareddau glanhau yn cael eu cwblhau cyn y gwasanaeth bwyd ac, os oeddent y parhau, roeddent yn cael eu cynnal mewn ardaloedd i ffwrdd o welyau cleifion, ac nid oedd gweithgareddau glanhau yn amharu ar y troli bwyd.
 - Roedd prydau'n cael eu darparu ar gyfer cleifion a oedd yn absennol o'r ward yn ystod y gwasanaeth bwyd.
 - Roedd hambyrddau bwyd yn cael eu casglu gan rai cleifion a oedd wedi gorffen bwyta tra bod cleifion eraill yn dal i fwyta – rhywbeth a allai annog y cleifion hynny i beidio â gorffen eu prydau.

Mae cost gwasanaethau arlwyo i gleifion wedi codi ac, er bod gwasanaethau arlwyo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion yn dal i wneud colled, mae'r bwlch rhwng incwm a chost yn cau

50. Yn 2010, roedd gwybodaeth ariannol am wasanaethau arlwyo yn wael ar y cyfan ac, os oedd y wybodaeth honno'n bodoli, roedd yn dangos amrywiadau sylweddol rhwng costau o fewn a rhwng sefydliadau'r GIG. Ychydig iawn o ysbytai oedd yn cynhyrchu digon o incwm i adennill holl gostau darparu gwasanaethau arlwyo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion, ac ychydig iawn o gyrff y GIG oedd â pholisi cytunedig ar gymorthdal. Argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylid datblygu model clir ar gyfer asesu cost gwasanaethau arlwyo i gleifion a gwasanaethau arlwyo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion. Yn 2012, cytunodd gyrff y GIG yng Nghymru i gyflwyno model newydd ar gyfer asesu cost gwasanaethau arlwyo fel rhan o'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS), wedi'i ategu gan ddiffiniadau data diwygiedig.
51. Ychydig iawn o gynnydd oedd wedi'i wneud o ran rhoi systemau arlwyo ysbytai ar gyfrifiadur, ac roedd y rhan fwyaf o'r systemau rheoli gwybodaeth arlwyo presennol yn dibynnu ar brosesau papur. Yn ei adroddiad cenedlaethol, argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai gyrff y GIG gyflwyno systemau gwybodaeth arlwyo cyfrifiadurol ac mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Phartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru wedi datblygu achos busnes amlinellol i gaffael ateb TG cenedlaethol ar gyfer arlwyo. Yn ôl ein harchwiliad diweddaraf, mae gyrff y GIG, gan gynnwys y Bwrdd Iechyd, wedi gwneud sylwadau ar yr achos busnes amlinellol.
52. Yn 2010, roedd gyrff y GIG yn mabwysiadu mesurau i reoli costau gwasanaethau arlwyo. Roedd yna le, fodd bynnag, i wneud mwy o ddefnydd o ryseitiau safonau wedi'u costio, gan gytuno ar lwfansau bwyd a diod ar gyfer cleifion, safoni contractau arlwyo lleol a lleihau lefelau gwastraff bwyd, a oedd yn annerbyniol o uchel. Argymhellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dylai sefydliadau'r GIG geisio sicrhau nad oedd mwy na 10 y cant o'r bwyd yn cael ei wastraffu. O ganlyniad, gosododd Llywodraeth Cymru darged o 10 y cant ar gyfer gwastraff bwyd trwy brydau heb eu gweini i'w gyflawni erbyn diwedd 2012-13.

Mae cost gwasanaethau arlwyo i gleifion wedi codi, ond mae cost pob pryd unigol yn amrywio rhwng ysbytai

53. Ledled Cymru, mae cost gwasanaethau arlwyo i gleifion wedi bod yn gostwng bob blwyddyn ([Arddangosyn 4](#)). Mae cyflwyniadau data EFPMS y Bwrdd Iechyd yn dangos bod y costau arlwyo i gleifion wedi gostwng 10 y cant o £8.49 miliwn yn 2011-12 i £7.62 miliwn yn 2012-13, ond wedi cynyddu 2 y cant i £7.82 miliwn y flwyddyn wedyn. Mae ein dadansoddiad o'r data EFPMS yn awgrymu bod y costau arlwyo i gleifion wedi cynyddu gan fod y costau darparu wedi cynyddu 22 y cant o £2.43 miliwn yn 2012-13 i £2.97 miliwn yn 2013-14. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd hwn yn y

gost o ddarparu bwyd, ni chafwyd cynnydd tebyg yn nifer y ceisiadau bwyd gan gleifion. Rhwng 2012-13 a 2013-14, cafwyd ond 6,600 (neu 0.3 y cant) yn fwy o geisiadau bwyd gan gleifion.


Arddangosyn 4: Costau gwasanaeth arlwyo i gleifion yn lleihau

Blwyddyn	Cost gwasanaethau arlwyo (£ miliwn)	
	Betsi Cadwaladr	Cymru
2011-12	8.49	38.95
2012-13	7.62	37.26
2013-14	7.82	36.97

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r Adroddiad ar Berfformiad Ystadau a Chyfleusterau'r GIG yng Nghymru 2012-13 a data ategol 2013-14

54. Mae'r data EFPMS ar gyfer 2013-14 yn dangos mai cost pob pryd i gleifion oedd £3.43 ar draws holl ysbytai'r Bwrdd Iechyd. Roedd cost pob pryd i gleifion yn YGC (£3.51) ac YG (£3.24) yn uwch na chyfartaledd y Bwrdd Iechyd a chyfartaledd Cymru (Arddangosyn 5). Yn YMW, roedd cost pob pryd i gleifion (£2.89) ychydig yn is na chyfartaledd Cymru.

Arddangosyn 5: Mae cost pob pryd i gleifion yn y Bwrdd Iechyd yn amrywio uwchlaw ac islaw'r gost gyfartalog ar gyfer ysbytai aciwt



Ffynhonnell: Data ategol ar Berfformiad Ystadau a Chyfleusterau'r GIG yng Nghymru 2013-14


55. Yn 2010, roedd trefniadau cynhyrchu bwyd y Bwrdd Iechyd yn dibynnu'n gryf ar systemau papur yn hytrach nag ateb TG. Erbyn 2013, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno system gwybodaeth arlwydo MenuMark yn YGC, gyda'r bwriad o'i gyflwyno'n fwy eang. Daeth ein harchwiliad diweddaraf i'r casgliad bod y system sylfaenol wedi'i chyflwyno. Nododd y Bwrdd Iechyd ei fod yn siomedig â'r cynnydd araf o ran caffael system Cymru gyfan a'i fod wedi datblygu achos busnes i uwchraddio system MenuMark yn dilyn adolygiad gan Archwilio Mewnol.
56. I helpu i roi safonau maeth ac arlwydo 2011 ar waith, lanswyd yr AWMF ym mis Ionawr 2013. Mae ryseitiau o fewn y fframwaith bwydlenni wedi'u costio. Aeth pob bwrdd Iechyd ati i ariannu penodiad deietegydd caffael i weithio ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaeth Caffael i gefnogi datblygiad contractau caffael Cymru gyfan i gaffael nwyddau a bwydydd ar gyfer y prydau ar y fframwaith bwydlenni. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyfrannu at y Grŵp Fframwaith Bwydlenni Ysbytai Cymru Gyfan a'r Grŵp Nwyddau Cymru Gyfan er mwyn datblygu materion caffael, gan gynnwys datblygu contractau i gaffael cynnyrch lleol gan gyflenwyr lleol.

Mae cost prydau heb eu gweini yn uwch o lawer yn Ysbyty Maelor Wrecsam

57. Yn 2010, roedd gwastraff prydau heb eu gweini o dan 10 y cant, sy'n awgrymu bod trefniadau'n cael eu rheoli'n dda ar y pryd. Erbyn ein gwaith dilynol yn 2013, roedd y gwaith o fonitro gwastraff bwyd ar wardiau wedi gwella cymaint fel bod pob ward yn monitro gwastraff amser brecwast, cinio a swper. Roedd y gwaith monitro yn ystyried prydau heb eu gweini yn unig, yn hytrach na gwastraff ar y plât. Roedd patrymau gwastraff yn gymharol gyson rhwng safleoedd, er bod yna amrywiad yn ymwneud â'r math o ward (e.e. roedd mwy o wastraff mewn UDMau nag mewn wardiau eraill). Yn 2013, argymhellwyd y dylid datblygu'r gwaith o fonitro gwastraff bwyd i gynnwys gwastraff ar y plât. Yn ôl ein harchwiliad diweddaraf, nid oedd unrhyw gynnydd wedi'i wneud o ran monitro gwastraff ar y plât.
58. Nododd y Bwrdd Iechyd ei fod yn defnyddio diffiniad yr EFPMS i gyfrifo gwastraff prydau heb eu gweini.⁶ Aethom ati i adolygu sampl o'r adroddiadau gwastraff misol a gyflwynwyd fesul rhanbarth (dwyrain, canolbarth a gorllewin) ac a oedd yn cynnwys manylion wardiau/unedau unigol. Roedd yr adroddiadau'n amrywio mewn fformat rhwng rhanbarthau, ac weithiau'n newid o fewn yr un rhanbarth dros amser. Roedd y data a gyflwynwyd yn ymwneud â nifer y prydau a weiniwyd a nifer y prydau heb eu gweini. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod cyfanswm y gwastraff yn cael ei ddadansoddi fesul arbenigedd ar hyn o bryd, yn hytrach na fesul ysbytai cyffredinol dosbarth, ac nad oes ffigur gwastraff ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn ei gyfanrwydd ar gael. Bydd angen i'r dull dadansoddi hwn newid er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir o wastraff ym mhob ysbyty cyffredinol dosbarth yn y dyfodol.
59. Yn ystod dau o'n harsylwadau amser bwyd, dywedwyd wrthym fod prydau heb eu gweini yn cael eu cofnodi ar ôl diwedd y pryd a bod y wybodaeth yn cael ei rhoi i'r staff ward ar unwaith.
60. Mae dadansoddiad o ddata EFPMS 2013-14 yn dangos bod prydau heb eu gweini yn costio £126,500 i'r Bwrdd Iechyd, sef 1.3 y cant o gyfanswm y costau arlwygo. Roedd yna amrywiadau rhwng holl ysbytai'r Bwrdd Iechyd. Roedd cost y gwastraff bwyd fel cyfran o gyfanswm costau YMW yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ysbytai aciwt, ac roedd y gost dipyn yn is na'r cyfartaledd yn YG ac YGC (**Arddangosyn 6**).

⁶ Nifer y prydau heb eu cyffwrdd/heb eu gweini sy'n weddill ar ddiwedd y gwasanaeth bwyd wedi'i mynegi fel canran o gyfanswm y prydau a ddarparwyd.

Arddangosyn 6: Mae cost gwastraff bwyd yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn cymharu'n llai ffafriol ag YGC ac YG a'r cyfartaledd ar gyfer ysbytai eraill yng Nghymru



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata ategol ar Berfformiad Ystadau a Chyfleusterau'r GIG yng Nghymru 2013-14

Mae gwasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion yn dal i wneud colled, ond mae'r bwlch rhwng incwm a chost yn cau

- Yn 2010, mi ddywedon ni nad oedd gwybodaeth ariannol am wasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion mor gadarn ag y gallai fod ar gyfer y gwasanaethau arlwygo ar draws gwahanol safleoedd ysbyty. Nid oedd gan y Bwrdd Iechyd bolisi cytunedig ar gyfer y lefelau cymhorthdal ar gyfer gwasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion. Yn hytrach, roedd y gwasanaethau hyn yn adennill eu costau ond yn gweithredu ar golled o fwy na £370,000 (nid oedd costau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion yn YG ar gael). Ar y pryd, argymhellwyd y dylai'r Bwrdd Iechyd gyflwyno polisi clir ar gymorthdal i osod y fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion.

- 62.** Erbyn ein harchwiliad dilynol yn 2013, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i wella ansawdd gwybodaeth ariannol ar gyfer cynllunio a monitro, ac i sicrhau adroddiadau cyson. Yn arbennig, roedd prisiau bwydlenni ar gyfer gwasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion wedi'u safoni ar draws pob safle, ynghyd â chanolfannau cost ar wahân. Ar y pryd, roedd y Bwrdd Iechyd wedi rhagweld diffyg o £180,000 mewn incwm i dalu cost gwasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion yn seiliedig ar archwiliad o weithgarwch dros gyfnod o wythnos. Fodd bynnag, ar ddiwedd mis Mawrth 2013, roedd y diffyg mewn incwm bron i dair gwaith cymaint, sef £535,000. Mae data EFPMS ar gyfer 2013-14 yn dangos bod y bwlch rhwng y gost a'r incwm a gynhyrchir yn cau ([Arddangosyn 7](#)).

Arddangosyn 7: Mae'r bwlch rhwng incwm a chostau gwasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion yn cau


Blwyddyn	Betsi Cadwaladr			Cymru		
	Cost gwasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion (£ miliwn)	Incwm a gynhyrchwyd	Bwlch canrannol rhwng costau ac incwm (%)	Cost gwasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion (£ miliwn)	Incwm a gynhyrchwyd	Bwlch canrannol rhwng costau ac incwm (%)
2011-12	2.74	1.69	-38%	15.05	11.20	-26%
2012-13	2.331	1.80	-23%	14.50 ¹	11.53	-20%
2013-14	2.201	1.79	-19%	13.43 ¹	11.26	-16%

¹ Yn cynnwys costau rhentu peiriannau gwerthu byrbrydau.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o Adroddiad Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau'r GIG yng Nghymru 2012-13 a data ategol 2013-14

- 63.** Ledled Cymru, roedd yr incwm a gynhyrchwyd trwy wasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion yn anniginol i adennill y costau gweithredu yn unrhyw un o gyrff y GIG yn 2013-14 ([Arddangosyn 8](#)). Yn y Bwrdd Iechyd, cost y gwasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion oedd £2.2 miliwn. Roedd cyfanswm yr incwm a gynhyrchwyd yn ddigon i adennill 81 y cant o'r costau, sy'n golygu cymhorthdal o tua £400,000. Adeg ein gwaith maes, roedd y Bwrdd Iechyd yn crynhoi data EFPMS ar gyfer 2014-15 i'w gyflwyno i Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru; efallai y bydd y data hwn yn dangos gwelliannau pellach. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi ei fod yn ystyried gwahanol fodelau o ddarpariaeth a phroffidioldeb cysylltiedig.

Arddangosyn 8: Nid yw sefydliadau'r GIG yn cynhyrchu digon o incwm i adennill cost gwasanaethau arlwygo ar gyfer y rhai nad ydynt yn gleifion; mae yna ddiffyg o 19 y cant mewn incwm yn y Bwrdd Iechyd



Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata ategol ar Berfformiad Ystadau a Chyfleusterau'r GIG yng Nghymru 2013-14

Mae'r broses o adrodd ar faterion arlwygo a maeth a chael adborth gan gleifion wedi gwella, ond mae rhai trefniadau goruchwylio yn gymhleth o hyd

64. Yn 2010, ychydig iawn o strategaethau a chynlluniau cyfredol oedd ar waith i gyflwyno polisiau cenedlaethol mewn perthynas ag arlwygo a maeth cleifion mewn ysbytai ac, mewn sawl un o gyrff y GIG, roedd angen i drefniadau gael eu cytgordio yn dilyn ad-drefnu'r GIG yn 2009. Roedd angen dull cynhwysfawr a chydgyssylltiedig i gael barn cleifion a theuluoedd er mwyn llywio cynlluniau a datblygiadau. Ychydig iawn o wybodaeth yr oedd byrddau'r GIG yn ei derbyn am ddarpariaeth a pherfformiad gwasanaethau arlwygo a materion yn ymwneud â maeth cleifion. Nid oedd gwybodaeth o ganlyniad i sgrinio maethol yn cael ei chrynhoi i ddeall maint y broblem a'r effaith debygol ar wasanaethau. Yn rhai o gyrff y GIG, gallai atebolrwydd gweithredol ar gyfer arlwygo a maeth fod yn gliriach.

-
65. Yn y Bwrdd Iechyd ar y pryd, roedd atebolwydd gweithredol ar gyfer arlwygo a maeth yn glir, ond nid oedd gan y Bwrdd Iechyd strategaeth glir na pholisïau ategol cyson. Ychydig iawn o wybodaeth yr oedd y Bwrdd yn ei derbyn am wasanaethau arlwygo a maeth, gan gynnwys canlyniad archwiliadau hylendid bwyd, ac roedd gwahanol fecanweithiau ar gyfer cael adborth gan gleifion yn golygu nad oedd safbwyntiau cleifion yn cael eu crynhoi a'u rhannu'n effeithiol. Yn ôl ein gwaith dilynol yn 2013, gwelwyd nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau ei strategaeth arlwygo a maeth.

Mae agweddau ar y broses o oruchwylio a chraffu ar faterion arlwygo a maeth yn gymhleth o hyd

66. Mae yna atebolwydd gweithredol clir ac ar wahân ar gyfer maeth ac arlwygo. Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth yn atebol am faeth ac mae'r Prif Swyddog Gweithredu yn atebol am arlwygo. Mae gan wasanaethau arlwygo linell o atebolwydd rheoli trwy'r Pennaeth Cyfleusterau, hyd at y Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau, sydd yn ei dro yn atebol i'r Prif Swyddog Gweithredu.
67. Rhoddwyd cyfrifoldeb ar arweinwyr gwasanaethau nyrsio a gwasanaethau i gleifion ar draws grwpiau rhaglenni clinigol i hunanasesu cydymffurfiaeth â'r argymhellion a wnaed yn adroddiad 2010 Swyddfa Archwilio Cymru ar arlwygo a maeth, i gymryd camau i wella a darparu tystiolaeth o newid yn chwarterol i INCHS.
68. Erbyn 2013, roedd strwythurau cynllunio ar gyfer anghenion maeth a hydradiad cleifion trwy INCHS yn bennaf, a oedd yn cyflwyno adroddiadau i'r Grŵp Gwella Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau (ISUE). Roedd ganddo raglen waith eang, gan gynnwys sicrwydd a goruchwyliaeth o gydymffurfiaeth â'r Safonau Maeth ac Arlwygo Cymru Gyfan, y safon iechyd a gofal yn ymwneud â maeth, yr AWMF a'r llwybr gofal maethol. Roedd aelodau'n cynnwys uwch staff o ddisgyblaethau perthnasol, gan gynnwys aelod o'r Cyngor Iechyd Cymuned (CIC).
69. Yn 2013, gwelwyd nad oedd gan staff arlwygo gynrychiolaeth ddigonol ar INCHS. Yn 2015, gwelwyd bod rheolwyr arlwygo wedi bod yn mynychu cyfarfodydd INCHS yn rheolaidd a dywedodd staff wrthym fod hyn wedi bod yn fuddiol iawn o ran eu cyfraniad at amrywiaeth o faterion. Fodd bynnag, yn wahanol i grwpiau tebyg mewn rhai byrddau iechyd eraill, nid yw'r cadeirydd presennol yn gyfarwyddwr gweithredol. Mae yna gydnabyddiaeth nad yw swyddogaethau ac aelodaeth INCHS heddiw yn cyfateb i strwythur a threfniadau'r sefydliad ar ei newydd wedd. Roedd y materion hyn i'w hystyried yng nghyfarfod y grŵp ym mis Medi 2015.
70. Roedd sawl grŵp yn rhan o INCHS yn 2013, gan gynnwys y Grŵp Sgrinio Maethol; y Grŵp Maeth Artiffisial; y Grŵp Hawliau Dynol; a'r Grŵp Profiadau Cleifion o Amser Bwyd/Bwydlenni. Yn ogystal, roedd y Grŵp Arlwygo a'r Grŵp Nwyddau Arlwygo yn rhan o'r Grŵp Profiadau Cleifion o Amser Bwyd/Bwydlenni. Dywedwyd bod yna risg bosibl o or-gymhlethu pethau yn y trefniadau hyn, a allai arwain at ddiffyg llinellau atebolwydd clir. Yn 2015, gwelwyd bod y trefniadau hyn fwy neu lai yr un fath.
71. Yn y cyfamser, sefydlodd INCHS grwpiau gorchwyl a gorffen i sbarduno newid strategol. Ar ôl cwblhau eu tasgau, byddai'r grwpiau'n cael eu diddymu neu eu

datblygu i mewn i drefniadau eraill. Fodd bynnag, nid oedd statws presennol y grwpiau yn glir i staff bob amser.

72. Mae INCHS yn gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar gyfer trafod a storio bwyd yn ddiogel. Yn sgil archwiliadau hylendid bwyd diweddar gan swyddogion iechyd yr amgylchedd, cafwyd sgoriau gwael mewn dau ysbty, gan arwain at lawer o gyhoeddusrwydd gwael i'r Bwrdd Iechyd. Dywedodd staff wrthym nad oedd yr adroddiadau arolygu yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol yn fewnol, gan arafu ymateb y Bwrdd Iechyd i'r archwiliad. Dylai INCHS fod wedi derbyn copïau o'r adroddiadau hyn yn uniongyrchol a sicrhau bod camau brys yn cael eu cymryd mewn ymateb iddynt.
73. Yn 2013, nodwyd bod yr Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn derbyn adroddiadau gan yr ISUE a'i fod yn goruchwyllo mwy o agweddau ar y gwasanaethau maethol a threfniadau cysylltiedig nag agweddau ar risgiau Gwasanaethau Arlwygo. Yn 2015, roedd y sefyllfa'n debyg iawn.
74. Mae aelodau'r Bwrdd y gwnaethom ni gyfarfod â nhw fel rhan o'r archwiliad yn ffyddiog bod y pwyllgorau'n derbyn gwybodaeth briodol am ofal cleifion. Roedd hi'n amlwg bod aelodau'n triongli gwybodaeth am faeth a hydradiad cleifion ac, yn fwy eang, am y safonau Hanfodion Gofal. Mae aelod annibynnol o'r Bwrdd wedi ei benodi'n Hyrwyddwr Profiadau Cleifion yn ddiweddar, ac mae'n disgwyl y bydd yn ymweld â wardiau yn rheolaidd.

Mae adroddiadau gweithredol a chorfforaethol yn gliriach yn dilyn yr ad-drefnu, ond ychydig iawn o adroddiadau rheolaidd a gyflwynir i'r Bwrdd ar brofiadau cleifion

75. Yn 2010, roedd adroddiadau i'r Bwrdd ar faterion arlwygo a maeth yn anghyson. Yn ystod ein hadolygiad presennol, daethom i'r casgliad fod y Bwrdd yn derbyn adroddiadau cyfnodol ar gydymffurfiaeth â'r llwybr gofal maethol trwy ei system fetrig 'Ward i Fwrdd' a Dangosfwrdd Nyrsio a Bydwreigiaeth y Bwrdd Iechyd. Mae materion arlwygo yn cael eu hadrodd i'r Grŵp Diogelwch Bwyd sydd, yn ei dro, yn adrodd i'r Grŵp Strategol Atal Heintiau. Mae'r Grŵp Strategol Atal Heintiau yn cynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Bwrdd sy'n cynnwys materion diogelwch bwyd ac arlwygo. Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn yr adroddiad Hanfodion Gofal blynyddol.
76. Fodd bynnag, ychydig iawn o adroddiadau rheolaidd a gyflwynir i'r Bwrdd ar brofiadau cleifion mewn perthynas â bwyd a maeth. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae adborth cleifion ar brofiadau o fwyd ac amser bwyd yn cael ei gyflwyno ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd fel rhan o'i adroddiad ar brofiadau cleifion, ynghyd â chydymffurfiaeth â sgrinio maethol.
77. Mae perfformiad yn cael ei fonitro a'i adrodd yn rheolaidd ar lefel weithredol. Mae cydymffurfiaeth â sgrinio maethol yn cael ei monitro mewn cyfarfodydd uwch nyrsys a gan INCHS. Mae dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer gwasanaethau arlwygo, megis gwastraff, darpariaethau bwyd, cost a niferoedd prydau, yn cael eu crynhoi yn fisol. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hadrodd yn gyfnodol drwy'r flwyddyn i'r tîm rheoli Ystadau a Chyfleusterau.

-
78. Yr un fath â chyrrff eraill y GIG, nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn crynhoi gwybodaeth o'r broses sgrinio maethol yn rheolaidd i ddeall nifer y cleifion y nodir bod ganddynt broblemau maethol wrth gael eu derbyn.
79. Roedd hi'n ofynnol i grwpiau rhaglenni clinigol ddarparu diweddiadau i INCHS ar eu sefyllfa mewn perthynas â'r Safonau Gofal Iechyd. Mae mecanweithiau asesu yn cynnwys adolygiadau Hanfodion Gofal, Archwiliadau Ansawdd a Diogelwch a chwblhau'r Dangosfwrdd Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru Gyfan. Rydym yn deall y bydd cynlluniau i ddiweddarau cylch gorchwyl INCHS yn gyfle i ddiweddarau'r trefniadau hyn.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau mecanweithiau ar gyfer cael adborth gan gleifion

80. Yn 2013, awgrymwyd y dylai'r Bwrdd Iechyd gymryd rhan yn Arolwg Cleifion Mewnol y GIG, a gynhelir gan y Picker Institute. Mae'r arolwg yn cynnwys amryw o gwestiynau yn ymwneud â bwyd ac amser bwyd. O ganlyniad, cymerodd y Bwrdd Iechyd ran yn y broses hon ac, adeg ein gwaith yn 2015, roedd yn disgwyl canfyddiadau'r arolwg diweddaraf.
81. Cofnododd yr arolwg blynyddol o brofiadau defnyddwyr o Hanfodion Gofal 2014 sgôr boddhad defnyddwyr o 96 y cant mewn perthynas â Safon 9, Bwyta ac Yfed. Cofnododd yr arolwg sgôr boddhad defnyddwyr o 94 y cant ar gyfer iechyd a hylendid y geg. Mae'r adroddiad yn dangos gwelliant bach dros y sgoriau o 2013 (93 y cant a 90 y cant). Fodd bynnag, mae'n nodi na fyddai cymhariaeth rhwng y ddwy flynedd yn gwbl ddibynadwy oherwydd newid mewn methodoleg yn 2014. Mae'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn derbyn adroddiad archwilio blynyddol Hanfodion Gofal, ac yn ei gyflwyno i'r Bwrdd.
82. Mae'r CIC lleol wedi datblygu archwiliad 'Gwyllo Bwyd' i asesu glendid ceginau ward a threfniadau i sicrhau bod cleifion yn cael digon o fwyd a diod. Datblygwyd yr asesiad mewn cysylltiad â gweithwyr atal heintiau, nyrsio ac arlwyo proffesiynol. Mae'n cynnwys crynhoi adborth anffurfiol gan gleifion, yn ogystal ag arsylwadau ward. Mae'r CIC yn adrodd y canfyddiadau hyn i'r Grŵp Diogelwch Bwyd strategol. Mae wedi bod yn gweithio trwy 2014 a 2015 i ymestyn ei raglen o ymweliadau 'Gwyllo Bwyd' ledled y Bwrdd Iechyd, i ddarparu ffynhonnell adborth ychwanegol.
83. Rhwng mis Hydref 2014 a mis Ebrill 2015, treialodd YMW y system adborth cleifion amser real, **I Want Great Care**. Dywedwyd wrthym fod staff yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn credu bod yr adborth amser real yn helpu i fynd i'r afael â materion yn gyflym ac yn gwella morâl y staff. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dyrannu cyllid i gyflwyno'r cynllun ar draws ei ysbytai.
84. Adeg ein gwaith maes, roedd y Grŵp Fframwaith Bwydlenni Cymru Gyfan yn cynnal arolwg o gleifion mewnol ledled holl gyrff y GIG ynglŷn â'r dewis ac ansawdd y bwyd. Dosbarthodd staff deietegol arolygon i 490 o gleifion ar draws ysbytai'r Bwrdd Iechyd, a chafodd 234 eu llenwi a'u dychwelyd, sef cyfradd ymateb o 48 y cant. Disgwylwyd canfyddiadau'r arolwg ganol yr haf ac mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu defnyddio'r canfyddiadau i lywio diwygiadau o'r cylch bwydlen a'r opsiynau bwydlen i'r dyfodol.

Atodiad 1

Dull archwilio

Nod yr archwiliad oedd ateb y cwestiwn: 'A yw'r Bwrdd Iechyd wedi rhoi argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol ar waith o ran diwallu anghenion maethol cleifion a gwella eu profiadau o amser bwyd, rheoli costau arlwygo a chynllunio a monitro?'. Cynhaliwyd amryw o weithgareddau archwilio rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2015 i ateb y cwestiwn hwn. Mae manylion y rhain isod.

Cyfweliadau ac adolygu dogfennau

Cynhaliwyd amryw o gyfweliadau ag unigolion allweddol yn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys swyddogion, aelod annibynnol, cynrychiolydd cleifion a rheolwyr ward. Aethom ati hefyd i adolygu amryw o ddogfennau, gan gynnwys adroddiadau gan sefydliadau allanol perthnasol eraill ac ymateb y Bwrdd Iechyd i'r adroddiadau hyn.

Dadansoddi data

Aethom ati i ddadansoddi data'r System Rheoli Perfformiad Ystadau a Chyfleusterau (EFPMS) ar gyfer 2012-13 a 2013-14, sef y data diweddaraf. Cyflwynodd cyrff y GIG ddata 2014-15 i Bartneriaeth Cydasanaethau GIG Cymru – Ystadau Arbenigol ddiwedd mis Mehefin. Bydd y data hwn ar gael ddiwedd mis Tachwedd 2015.

Arsylwadau ar wardiau

Cynhaliwyd arsylwadau o'r gwasanaeth amser cinio ar dair ward, a ddewiswyd gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, i asesu:

- a oedd cleifion ac amgylchedd y ward yn cael eu paratoi ar gyfer amser bwyd;
- a oedd cleifion yn cael y pryd iawn;
- a oedd cleifion yn cael help i fwyta os oedd angen; ac
- a oedd y ward yn cydymffurfio ag amseroedd bwyd penodedig.

Ymwelwyd â'r UDM – Ysbyty Maelor Wrecsam; Ward 14 – YGC; a Ward Glyder – YG.

Adolygu nodiadau achos

Cynhaliwyd adolygiad o nodiadau achos ar bob ward lle arsylwyd ar y gwasanaeth amser cinio i asesu:

- a yw gwaith sgrinio maethol, gan ddefnyddio dull sgrinio dilys, yn cael ei wneud ar gleifion wrth iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty;
- a yw gwybodaeth am bwysau, taldra, Mynegai Màs y Corff (BMI), achos diweddar o golli pwysau yn anfwriadol, archwaeth presennol, deiet 'normal', gofynion deietegol arbennig, y gallu i fwyta'n annibynnol, anawsterau bwyta neu yfed a phroblemau gydag iechyd a hylendid y geg, gan gynnwys dannedd, wedi'i chofnodi; ac

-
- a oedd cynlluniau gofal ar waith ar gyfer y cleifion hynny y nodir bod ganddynt broblemau maethol, neu sy'n wynebu risg o ddatblygu problemau o'r fath, ac a oedd cleifion y nodir eu bod yn wynebu risg yn cael eu hatgyfeirio i gael asesiad deietegol.

Cafodd y pum set o nodiadau achos a adolygwyd ym mhob ward eu dewis gan y rheolwyr ward.

Atodiad 2

Argymhellion lleol a chenedlaethol

Mae **Tabl 1** yn amlinellu'r 20 o argymhellion lleol a amlinellwyd yn ein hadroddiad, a oedd yn crynhoi'r canfyddiadau o'r gwaith archwilio a gyflawnwyd yn 2010 ar wasanaethau arlwyio ysbytai a maeth cleifion yn y Bwrdd Iechyd. Mae statws pob argymhelliad⁷ wedi'i nodi yn **Nhablau 1, 2 a 3** hefyd.

Tabl 1: Argymhellion lleol 2010

Argymhelliad		Statws ym mis Gorffennaf 2015
Trefniadau rheoli a chynllunio strategol		
A1	Cryfhau trefniadau cynllunio ar gyfer arlwyio er mwyn sicrhau agenda glir a chyson ar gyfer y gwasanaeth arlwyio ar draws y Bwrdd Iechyd.	A
A2	Sefydlu strwythurau cynllunio ar gyfer gwasanaethau arlwyio a maeth sy'n gyson ar draws y Bwrdd Iechyd.	A
A3	Mynd i'r afael â materion rheoli a staffio'r gegin yn Ysbyty Maelor Wrecsam ar frys.	C
A4	Lleihau'r amser a gymer i ddatblygu a sefydlu prosesau arlwyio a maeth newydd.	C
A5	Gwella trefniadau craffu'r Bwrdd ar gyfer monitro risgiau a pherfformiad arlwyio a maeth.	A
Caffael, cynhyrchu a rheoli costau		
A6	Cyflwyno polisi cymhorthdal clir i bennu'r fframwaith ar gyfer cyflenwi gwasanaethau arlwyio nad ydynt ar gyfer cleifion.	A
A7	Datblygu trefniadau cyfeirlyfr cyson ar draws y Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau bod digon o wybodaeth gadarn am fusnes arlwyio ar gael.	A
A8	Gwella'r trefniadau cyfredol ar gyfer monitro gwastraff bwyd fel eu bod yn rhoi adlewyrchiad cywir o effeithlonrwydd cynhyrchu ac yn helpu i nodi'r cyfleoedd i wella'r systemau presennol.	C

⁷ Mae (C) yn nodi bod yr argymhelliad wedi'i gyflawni, mae (A) yn nodi bod yr argymhelliad ar waith ond heb ei gyflawni eto ac mae (D) yn nodi bod dim neu ychydig iawn o gynnydd wedi'i wneud.

Argymhelliad**Statws ym
mis
Gorffennaf
2015****Dosbarthu bwyd i'r ward**

A9	Mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn yr adroddiad hwn ynglŷn â safon a dosbarthu bwyd sy'n effeithio ar ansawdd y bwyd a gaiff cleifion yn Ysbyty Maelor Wrecsam.	C
A10	Mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn yr amgylchedd arlwygo yn Ysbyty Maelor Wrecsam ar frys.	C
A11	Gwella'r trefniadau ar gyfer dosbarthu bwyd i wardiau er mwyn sicrhau bod tymheredd y bwyd yn cael ei gadw ar y lefelau priodol.	C
A12	Datgomisiynu'r trolis plastig llwyd budr sydd wedi'u difrodi a ddefnyddir gan yr adran arlwygo i gludo mân nwyddau arlwygo yn Ysbyty Maelor Wrecsam.	C
A13	Cyflwyno amserau bwyd wedi'u diogelu ar gyfer pob amser bwyd yn yr holl wardiau priodol er mwyn efelychu'r dull a fabwysiadwyd yn y wardiau gorau.	C
A14	Atgyfnerthu'r angen i lanhau dwylo cleifion.	C
A15	Cynnwys maeth sylfaenol yn y rhaglen hyfforddi ar gyfer staff arlwygo ar y ward er mwyn gwella eu hymwybyddiaeth o'i bwysigrwydd a'r angen i ddilyn gweithdrefnau'r ward.	A

Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad

A16	Atgyfnerthu'r angen i fesur pwysau a thaladra cleifion er mwyn cyfrifo Mynegai Mâs y Corff (BMI) cysylltiedig cleifion.	A
A17	Gwella fformat a'r mathau o wybodaeth sy'n ymwneud â maeth a gofnodir yn y nodiadau nyrsio i gleifion.	C
A18	Datblygu dulliau ymarferol i gynorthwyo'r gwaith o gwblhau siartiau cofnod bwyd a siartiau mewnbwn/allbwn hylif yn rheolaidd.	C

Casglu barn cleifion a rhannu gwybodaeth

A19	Cyflwyno trefniadau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth am farn cleifion ar y gwasanaeth rhwng rheolwyr wardiau a'r gwasanaeth arlwygo.	C
A20	Cynnwys cleifion yn llawn wrth ddatblygu'r gwasanaeth arlwygo, gan ddatblygu'r profiadau cadarnhaol diweddar o gynnwys cleifion.	C

Mae **Tabl 2** yn amlinellu'r 26 o argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad 2011 yr Archwilydd Cyffredinol, a oedd yn berthnasol i gyrrff y GIG sy'n darparu gwasanaethau arlwyio i gleifion.

Tabl 2: Argymhellion cenedlaethol 2011

Argymhelliad		Statws ym mis Gorffennaf 2015
Sicrhau y caiff anghenion maeth cleifion eu diwallu		
A1b	Dylai cyrrff y GIG ddefnyddio'r canlyniadau a gyflwynwyd yn ein hadroddiadau archwilio lleol fel sail dros sicrhau eu bod yn gweithredu Llwybr Gofal Maeth Cymru gyfan yn effeithiol; yn benodol mae'n rhaid iddynt sicrhau bod prosesau sgrinio maethol yn nodi'n effeithiol bob claf sydd â phroblemau maeth, neu sy'n wynebu risg o'u datblygu, a bod cynlluniau gofal a gweithgareddau monitro priodol yn cael eu sefydlu.	A
A1c	Dylai cyrrff y GIG archwilio cydymffurfiaeth â phob agwedd ar y llwybr gofal maeth yn rheolaidd ar bob un o'u safleoedd a rhannu canlyniadau'r ymarferion monitro â phob grŵp staff perthnasol sy'n ymwneud â gwasanaethau arlwyio a maeth cleifion.	C
A1d	Lle nodir cydymffurfiaeth wael â gofynion y llwybr gofal maeth, dylai cyrrff y GIG ganfod y rhesymau dros hyn, a rhoi cynlluniau gweithredu clir ar waith i fynd i'r afael â'r broblem; dylai hyn gynnwys rhoi hyfforddiant angenrheidiol i staff.	A
A1e	Dylai fod gan gyrrff y GIG drefniadau ar waith i sicrhau bod bwyd ar gael i gleifion 24 awr y dydd; dylai byrbrydau fod yn rhan o'r trefniadau hyn a dylai cleifion gael gwybod pa fyrbrydau sydd ar gael iddynt, a phryd.	C
A2a	Dylai cyrrff y GIG gymryd camau i sicrhau bod pob bwydlen a ddefnyddir yn eu hysbytai wedi cael ei hasesu o ran maeth gan ddeietegwyr.	C
Gwella profiad cleifion o amser bwyd		
A3a	Sicrhau bod eu bwydlenni yn cynnig dewis priodol o fwyd a bod y trefniadau ar gyfer archebu a gweini bwyd yn cefnogi dewis digonol i gleifion.	A
A3b	Adolygu eu harferion ar lefel ward er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu helpu i fod yn gyfforddus cyn cael eu bwyd, ac yn cael cyfle i olchi eu dwylo cyn i'r pryd o fwyd gael ei weini.	C
A3c	Parhau i gyflwyno'r polisi amser bwyd wedi'i ddiogelu i gymaint o wardiau â phosibl, gan gyfleu ei bwysigrwydd i bob grŵp staff perthnasol sy'n gweithio yn yr ysbyty, ac adolygu cydymffurfiaeth â'r polisi'n rheolaidd.	C

Argymhelliad**Statws ym
mis
Gorffennaf
2015****Rheoli costau'r gwasanaeth arlwyo**

A4b	Dylai cyrff y GIG gyflwyno systemau gwybodaeth arlwyo cyfrifiadurol, wedi'u hategu gan ddadansoddiad clir o gost a budd o'u cymharu â'r systemau gwybodaeth presennol â llaw.	A
A5a	Argymhellwn fod cyrff y GIG yn adolygu eu dulliau rheoli cost cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o ryseitiau safonol wedi'u costio.	C
A5b	Argymhellwn fod cyrff y GIG yn adolygu eu dulliau rheoli cost cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o lwfans bwyd a diod dyddiol i gleifion.	A
A5c	Argymhellwn fod cyrff y GIG yn adolygu eu dulliau rheoli cost cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o gontractau arlwyo lleol safonol ar gyfer yr un cynhyrchion neu gynhyrchion tebyg ym mhob un o'u hysbytai.	C
A6a	Dylid pennu targedau lleol a chenedlaethol ar gyfer gwastraff bwyd; fel canllaw dylai sefydliadau'r GIG anelu at sicrhau nad yw gwastraff o brydau bwyd nas gweinwyd yn fwy na 10 y cant.	C
A6b	Dylai cyrff y GIG fonitro gwastraff bwyd yn rheolaidd yn unol â chanllawiau clir ar yr hyn sy'n bryd o fwyd heb ei weini, a dylai'r wybodaeth hon gael ei ddefnyddio i lunio cymariaethau ystyrlon yn lleol ac yn genedlaethol.	A
A6c	Dylai'r gwaith o fonitro gwastraff bwyd gynnwys nodi'r rhesymau dros y gwastraff a welir, a dylai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella systemau a phrosesau sy'n achosi'r gwastraff.	A
A6d	Dylai cyrff y GIG bwysleisio i'w staff fod rheoli gwastraff bwyd yn gyfrifoldeb ar bawb a dylai staff arlwyo a staff wardiau gydweithio i fynd i'r afael â'r broblem.	C
A7a	Pennu polisïau prisio a thargedau cynhyrchu incwm sydd â'r nod o sicrhau bod gwasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn adennill costau o leiaf, neu, os nad ydynt yn gwneud hynny, bod hynny o ganlyniad i bolisi cymorthdalw bwriadol sy'n seiliedig ar ddadansoddiad manwl o gostau.	C
A7b	Monitro incwm a gwariant ar wasanaethau arlwyo i'r rhai nad ydynt yn gleifion yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn perfformio'n ariannol yn ôl y disgwyl ac nad oes diffygion ariannol annerbyniol.	A

Argymhelliad**Statws ym
mis
Gorffennaf
2015****Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol**

A8b	Dylai cyrff y GIG sicrhau bod ganddynt gynlluniau a gweithdrefnau cyfoes sy'n nodi'r trefniadau lleol ar gyfer gweithredu gofynion polisi cenedlaethol a sicrhau bod gwasanaethau arlwyo a maeth, hyd y gellir, wedi'u safoni ar draws sefydliadau'r GIG, yn enwedig lle mae ad-drefnu'r GIG wedi dwyn ynghyd nifer o wahanol fodolau gwasanaeth o dan un sefydliad.	C
A8c	Dylai cyrff y GIG sicrhau fod cyfrifoldebau'r cyfarwyddwr gweithredol dros arlwyo a maeth wedi'u diffinio'n glir, a lle mae dau neu fwy o gyfarwyddwyr gweithredol yn gyfrifol, dylai fod trefniadau penodol ar gyfer cynllunio a monitro gwasanaethau mewn ffordd gydgyssylltiedig.	C
A9c	Dylai cyrff y GIG sicrhau eu bod yn gwneud defnydd llawn o ddata'r EFPMS fel ffordd o reoli a monitro eu gwasanaethau arlwyo a maeth.	C
A10a	Datblygu ffordd fwy cynhwysfawr o gofnodi perfformiad gwasanaethau arlwyo a maeth cleifion i'r Bwrdd sy'n dwyn ynghyd wybodaeth am weithredu'r llwybr gofal maeth a data perfformiad ar gostau gwasanaethau i gleifion a'r rhai nad ydynt yn gleifion, gwastraff bwyd, ac adborth gan gleifion a'u perthnasau; dylai'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno i'r Bwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn a dylai wneud defnydd priodol o ddata meincnodi EFPMS.	D
A10b	Coladu gwybodaeth o sgrinio maethol yn systematig am nifer y cleifion y nodwyd bod ganddynt broblemau maeth neu eu bod yn wynebu risg o gael problemau maeth er mwyn deal maint y broblem a'r effaith debygol ar wasanaethau arlwyo a maeth i ddiwallu anghenion y cleifion hyn.	D
A11a	Argymhellwn y dylai cyrff y GIG sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i rannu gwybodaeth am farn cleifion ar wasanaethau arlwyo rhwng prif nyrsys a'r gwasanaeth arlwyo.	A
A11b	Argymhellwn y dylai cyrff y GIG dangos sut y maent wedi ystyried barn cleifion wrth ddatblygu eu gwasanaethau arlwyo a maeth.	A
A11c	Argymhellwn y dylai cyrff y GIG phennu ffyrdd o gynnwys cleifion mewn gweithgareddau sy'n asesu ansawdd gwasanaethau arlwyo a maeth.	C

Mae **Tabl 3** yn amlinellu naw awgrym ar gyfer camau pellach sy'n codi o ganlyniad i'r gwaith archwilio dilynol ar wasanaethau arlwyio ysbytai a maeth cleifion y Bwrdd Iechyd yn 2013. Mae rhifau'r argymhelliad yn ymwneud ag argymhellion lleol 2010 a amlinellir yn **Nhabl 1** uchod.

Tabl 3: Awgrymiadau 2013 ar gyfer gwaith ac adolygu pellach

Argymhelliad¹		Statws ym mis Gorffennaf 2015
Cynllunio a monitro gwasanaethau'n effeithiol		
A1	Mae angen i gynrychiolaeth y grŵp arlwyio barhau i gryfhau yn y grŵp INCHS. Dylai hyn anelu at sicrhau gwaith cysoni gwell rhwng cynlluniau arlwyio a maeth.	C
A1	Er bod trefniadau cynllunio strategol wedi cael eu hatgyfnerthu, bydd angen iddynt gael eu datblygu ymhellach er mwyn sicrhau bod agenda glir a chyson a phrosesau cyson ar draws y Bwrdd Iechyd lle bo'u hangen.	A
A2	Er bod gwelliant amlwg o ran cynllunio gwasanaeth maeth, mae angen atgyfnerthu'r gwaith o gynllunio gwasanaeth arlwyio ymhellach.	A
A5	Dylai'r trefniant geisio cyswllt mwy uniongyrchol rhwng trosolwg y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a pha mor dda y mae'r Gwasanaethau Arlwyio yn diwallu anghenion cleifion.	C
A5	Cynnwys maeth ac arlwyio mewn adroddiadau ansawdd - cyflwyno adroddiadau ansawdd i'r Bwrdd.	A
A5	Mae risg bosibl o orgymhlethu strwythur y grŵp, a all arwain at ddiffyg llinellau atebolrwydd clir.	A
Caffael, cynhyrchu a rheoli costau		
A7	Dylai'r Bwrdd Iechyd anelu at greu gwybodaeth ariannol gyson a chymaradwy am y gwasanaeth arlwyio sy'n adlewyrchu cost wirioneddol y ddarpariaeth a'r gwasanaethau. Ochr yn ochr â hyn, dylai'r Bwrdd Iechyd anelu at leihau'r amrywiad mewn dulliau ariannu yn y gwasanaeth Arlwyio a cheisio cysondeb yn y gwasanaeth arlwyio a ddarperir er mwyn sicrhau'r profiad gorau posibl i'r claf adeg bwyd.	A
A8	Bydd angen gwella'r dull monitro gwastraff bwyd ymhellach i gynnwys gwastraff ar blatiau a gwastraff ar droliâu pan fydd y Bwrdd Iechyd yn symud i wasanaeth swmpgyflenwi yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Bydd y dull hwn wedyn yn galluogi'r gwasanaeth Arlwyio i leihau gwastraff cynhyrchu diangen ac yn helpu i sicrhau bod cleifion yn cael y maeth sydd ei angen arnynt.	C

Argymhelliad¹**Statws ym
mis
Gorffennaf
2015****Diwallu anghenion maeth cleifion a chefnogi gwellhad**

A19	Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnal yr Arolwg Picker neu arolwg tebyg yn ystod 2013, i nodi a wnaed cynnydd, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch cleifion.	C
A20	Sicrhau bod cynrychiolydd cleifion yn cael ei recriwtio ar gyfer grŵp INCHS erbyn mis Ebrill 2013.	C

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru